

**BRATIAU BUDRON 3**

Bobi Jones

## CYNNWYS

Ffon	3
Ffrind	5
Robin ar Law	6
Portread o Wryw Gwryfol	8
Archfarchnad	10
Pysgodyn Jona	11
Gwell na Delwedd	13
Mae yna rai dyddiadau	15
Gwasgarai'i Wendid	17
Damwain Dail Lasagne	18
Gwraig wrth Gofadail	19
Portread o'r Bwa Bach	20
Yr Atgof Hedegog	22
Dysgwr Gwâr o Geredigion	24
Hen Sidan	25
Dysg Ffigysbren a Diferlif	27
Y Llecyn Chwarae	28
Brawddegau Ail Iaith	30

## FFON

Dere hen ffon am dro gyda mi ar lwybr  
drwot ar dy hyd. Mewn coridór fel bwgan hen  
oddi cartre'n cadw stŵr, ymgolli hyd-ddot y mae  
f'addewidion, yn galw ymlaen, ar hyd dy goes.  
Mae ffon yn celu sianel ar gyfer taith.

Ffon heb ddymuno dim ond helpu. Rhywbeth  
sanctaid, yn ei dirgel-leoedd, y siwrnai drwot  
hyd-ddot, y rhain a gariaf, tywalltwn hwy ar dy hyd  
yn fachludoedd cloff sawl doe, sawl tywydd,  
dilynwn ar gefn dy flynyddoedd i'r uchelderau.

Ynot myfyriaf, er im dy weld di o'r blaen  
yn digwydd bob dydd. Gwyddwn o'r dechrau  
dy fod yn fath o gariadferch drwyddi fan yna'n  
sefyll heb fronnau, ond yn well na throed.  
Dyna a wnei i'm breuddwyd ar bren llawenydd.

Ifanc wyt ti hefyd. Ac fel pob ifanc, broliet  
na wyddet rai atgofion. Safet yn hudlath  
ar ganol fy llwybr yn llwybr fel y gwn  
y caf d'atgoffa am yr hen chwantau, ac fel y gwn  
am golli popeth o'r newydd wrth ennill ffon.

Cura di 'nghefn rhag i'm henoed hynod hoenus  
anghofio'i gerddediad. Chwipia f'ebargofiant heini.  
A phaid â gadael i'r gornel gwtsio ynof,  
fy nghymdeithes gof, rhag na chydabyddwn  
y tro nesaf ymhle down o hyd i'n cwmni byw, –

camaf yn ystwyth: 'Cama dros eu deilios! I fyny o'u dôl!'  
Y rhai sy'n esgyn o'r newydd yn fy ffon, wedyn hedfan  
yn gyn-goeden ar gainc, a thrwy ddringo i'th frig  
y caf d'adnabod yn ffrwythlon o ddail, a'th berchen  
– aderyn mewn llaw – yn agor ei big, a'u mawrygu.

## FFRIND

Os wyt ti'n teimlo'n blwm a'th draed yn drwm,  
gwybydd fod yna un sy'n deall y peth i'r dim.  
Mae ef wedi bod drwyddi ac yn cynnig pawen  
i gerdded y ffordd, a gwlych-rwbio dy drowsus â'i ên.

Mae'n goleuo'r tŷ â rhu pan gloffi i mewn.  
Mae'n synhwyro'r suddo gennynt yn dy bwd.  
Yn llygad-drydanus-wyliadwrus-gil mewn twll,  
mae'n ffrwydryn o ddisgwyl yn barod i chwythu rhwd

d'aelodau i ffwrdd, yntau'n ddim byd o ddaeargi  
llawr-lynedig, yn bloryn o dymestl botensial. Ond  
gall gripian i gornel gyda thi hyd y ffordd sy'n anial  
drwy obenyddau'i lygaid digon crog ond crwn.  
Gwybydd fod gen ti ffrind, na all lai na mynd  
bob cam o'th fyw, a thewi pan fyddi eisiau tewi.

## ROBIN AR LAW

Derbyn yn erbyn fy mysedd crog  
gyflog am ddisgwyl dy hedeg ffri.

Disgwyl a chael un wobr fach  
i godi brau fy mriwsionyn i –

derbyn gwefus drwy'r dail yn gân  
sy'n anodd i gredu'i choched. Do,  
cusenaist hwy. Condemniwyd fi  
sut bynnag i gredu beth bynnag fo.

Credu'u cochni, yn ddiau. Ond  
merch? A robin! Mewn bywyd amgen! –  
un o'r bywydau a roi di beunydd.  
Un peth 'ddysgais mewn derbyn llaw:

popeth oedd credu'r anhygoel. Gwirion  
yw'r gwirioneddau a dwitia i lan  
a'u gwar yn grwm yn araf annheg,  
yn llon o gael eu dala â chalon

grin flinedig; ychydig a'u cred  
bererin bach; ond pobhynt-hafhynt  
'ddaw, (led gaeaf) yn drydar-draed  
o robin wridog, i synnu'r gwynt.

Mor araf y'u dywedai'r ddau beth hyn

a friwsionwyd yn wefusau. Merch

a robin oedd un stori o'r nef.

Agor dwy-adain-ond, a hedfan

yn robin, gwefr yr ymwelwyd â'i chredu

fel credu cyfeilles a naid mor hylew

ei llond o Sul, sy'n llond ein gardd

o'r gwaed a befria pan naid ar law.

Cyrraedd a mynd fu hanes hyn

o adain. Ond O! Na chawn y llall,

y wefus mor araul araf a honno'n

aros heb gael ymadael mwy.

A'r coch un daith, yn ymwelydd â'm llaw,

y coch a agorodd olau f'amrant

un dydd i gydio ym mara haul

diatgno merch a'i thocyn unffordd.

## PORTREAD O WRYW GWYRYFOL

O'r neilltu, cesglaist dy fywyd i fod yn wryfol.  
Tybiaist dy fod yn falurion, fel pawb ohonom.  
Ond ecentrig oet, a'th ddiweirdeb yn ystryw estron.  
Dewisaist loncian yn wryf drwy glwysty dy gorff.

Meudwy rhag arferoldeb oeddet, a'th hedd yn hyddysg.  
Ffynnon distawrwydd oet ti. Ac atat dôi'r llanciau  
ifainc, sefyll a syllu i'r hylif. Lluchient i'r dŵr  
eu punnoedd: rhywbeth i'w wneud. Ac fe ryfeddent.

Ni fwriedaist eu dychryn hwy'n ormes, na hwythau di.  
Ond yn eu blaen aent yn dawelach, rhag y llyn mewn llonydd  
yr ofnent eu boddi ynddo. Hyn, y gwryfyddod yn llechen  
y sgrifenni arni eu hanwybod ofn a'th fath o fodoli

yr hiraethent amdano, distawrwydd un, (er yr amser byr);  
mi gofnodent ar hyn eu hanes. Ond ni fynnent oedi.  
Nid felly ti. Cydnabyddet ti olud dy fod ar wahân,  
a'r gwybod hwn oedd dy ffynnon. Hyn oedd y tloidi

a oedai mewn gwryf. Y dyfroedd a sychodd ynot.  
Llwyddaist ti i wneud hyn mewn byd 'fu mor annynol.  
Mor fud ym mhob brys. A'th enau hefyd yn waglaw  
heb lety i eiriau, heb ateb pan ofynnent eu cwestiwn.

Ac felly, safai'u diddeall wedi'u newid ger dy fron,  
er mor fydol ddoeth oedd eu tras a'u trwst a'u trais.  
Ti oedd y noethni byth-yn-anllad; dy ddillad di  
oedd y llethol lonyddwch a'r llwythau heddiw o aros



ar ryw fath o ben draw o ildio i'r estyn oddi yno  
dy freichiau'n llawn affwys, a gorffwys mor araul  
uwch eu pennau maddeuedig i wasgar dy nwydd  
o wryfydod...A hwn a gerir o'r diwedd gan nenfwd.

## ARCHFARCHNAD

Mae'r archfarchnad y prynhawn yma'n garnifâl:  
caws a'r creision yd i gyd a'r tuniau ar eu hyd yn bloeddio.  
'Wnaiff hi ddim o'r tro i weld pydew Ellis Wynne  
fel hyn a diafoliaid crown yn pentyrru ar warrau'i gilydd,  
  
gyda darnau o gluniau, tri bys, a hanner dwsin o ymenyddau.  
Wedi methu'n safle-adeiladu, mi droes hon yn faes y gad.  
Mae'r cwsmer yn edifarhau iddo erioed ymadael â'r tŷ,  
yn wely heb ei dannu, a'r hunllef sŵn yma amdano'n fyd.

Gwir mai gwirach na'r negydd yw canibaliaeth  
swae y siop. Mae popeth sŵn yn adleisio rhyfel  
pendro Cread mewn ysbyty meddwl, tuniau gweigion  
crog a'r hyrddio cyrff, ... heb sylwi y byddai gwrthdystio'n

rhy rwydd. Dim ond pobl sy yma'n dwyn – â'u pendraphen  
godidog – Greadigaeth a'i photensial o ddolydd a choed  
a drudwys dan fedlam... Eto, arhoswch gyfaill dro,  
blaswch eich oedi hurt. Mae mwy na hyn yma, wrth gwrs:

y Crëwr yn fwy na'r Cread. Eithr yn sicr, yn y gwranddo,  
mi wn y bydd ef yn ddigon bodlon inni fwynhau  
lleisiau, eisiau Iesu, am yr ugain eigion nesaf sbon  
ar ôl sylwi ar y gwg. Wedyn adref i chwerthin, ac wylo.

## PYSGODYN JONA

Efô a'i delweddodd, a'th arddel yn gysgod ohono.  
Jona, bu d'Arglwydd i lawr ar y llethrau llithrig –  
croen mewdol y bol – yn pysgota amdanom ni,  
ar lannau'r gwaed, mewn botasau tew, gan daflu  
ei rwyd amdanom, heb ddymuno gwastraffu'r un,  
mor ddwfn yn ogof y ddaear ynghudd mewn marw.

Y fan 'na, yr oeddem gydag ef ym mola'r malwr.  
Clywsom fotasau'n dawnsio ar y drwm amdanom,  
'Arbed ni rwan. Ymysg pysg y Pasg tu allan, cymer  
ni i mewn rhag rhwyd dameg y damnio, yma'n farus  
am edifaru.' Ac i mewn, y'n tynnwyd i'w waed cadwedigol;  
syflwyd heb gollu troed, heb neb ond efô wedi synied  
yno am adeiladu rywbyrd oleudy bychan mewn bol.

A hwnnw'r morfil amdanom a ymwithiai drwy'r dŵr.  
Diogel oeddem mewn perfedd. A chylchwyd ni'n  
fydysawdau y tu mewn o oes i oes yn barod dan fyd  
o fôr. Crwydrai'r morfil fel daear drwy'r nen, yn blaned  
flinedig drwy'r dagrau yn ddagrau o dewdra malwen  
yn glynu ar groen y to oll a phoen hyllgoll cylla.

Yr Arglwydd 'saif yn dy seleri, O! Fyd, gyda thi. Ni fychanodd  
fôr. Nid esgeulusodd y Pysgodwr hwn bilcodyn o'r haig.  
'Dal ni'n dynn.' Yn syn ynddo lluchiwyd ein difancoll  
allan o fola'r bydolrwydd wedi'r hir ddisgwyl iddo  
ein dal yn ein dwli, ond hwythau'n sardinau eraill drwy'r  
portyllau'n sbio i mewn, daer-lygaid, am ysblanderau.

Dair noson, dri diwrnod, buost Jona'n adeiladu eco  
i'r môr. Ni a gyfogwyd o'th ogof, (wedi'r caddug fe'n cest  
i wared) yn gryn. Cudasom wedi'n tynnu – Ow'r Rhyfedd –  
y rhyddid o'r tu mewn, codasom o'r ofereddau fôr. Pryn  
lu. Pryn deulu. Pryn ddyfnderoedd. Dilyna a thyn ni'n  
llawn heddiw uchod i wawn holl rwyd d'ogoniant.

GWELL NA DELWEDD;  
GWELL HYD YN OED NA GWANWYNO

Ai yn nhai-gwydr crisial  
dy ddannedd y dôi  
hwiangerdd yr eira  
ar fflamau tanau'r delyn  
i grensian esgyrn fy ngaeaf?

Wrth ddringo rhaff  
dy ddyddiau amlgalon  
enillent dindrosben  
ras werdd yr haul,  
gras glas yr henoed.

Tincial, tincial  
yn oerfel ceg  
y neges deg i fi  
am wanwyn draw  
lle tawdd y môr yfory.

Wedi glanio'n ôl  
o'th fordaith faith,  
dest i ailddarganfod  
iâ'n dadlaith utgyrn  
blawd. (Gwell dy gyrraedd.)

Gwell oedd hyn na hel  
at ei gilydd liw'r gaeaf  
grawcian crachen  
yn hercian, dros glwyf, ddelwedd  
o'r wlad bellennig werdd.

Anwylyd y mynyddoedd,  
'nghariad y cesair wedi dod  
â rhai bach, i'm llygaid,  
a rhai mawr, i'm dawnsiau,  
a thoddi gwallt fy mreuddwyd  
wrth ddod yma dy hun yn wanwyn.

Gynifer y'u siglaf yn gof  
y tu mewn i'm bola!  
Oni fydd tir y gwanwyn  
ar dro 'nawr yn y rhaedrau  
rhedegog? Ac oni chaiff  
yr Arctig ei hun ei wybod?

Arhosi lle bu glasierau,  
yn awr, yma'n coleddu cerrig  
cladd. Ac os gofyn teithiwr, 'er  
pa gof heno y dodwyd yma'r  
cerrig gwynion hyn?' ateber:  
cerrig coffa adfyw oeddent.

MAE YNA RAI DYDDIADAU NA ELLWCH CHI DDIM EU PASIO'N DDIANAF

(Sydney Valentine Jones: geni Ddydd Ffolant 1900)

Yn flynyddol, atseinia'r dyddiad.  
Yr un person sy'n cnocio'r drws,  
yr un fy nifaru, yr un tynnu  
coes; y gadair yn gwaedu; y clwy'.

Mae marw'n ein rhyddhau rywsut  
i fod yn gariadon. Mewn arch  
mae'r anymarferol yn agos  
a'r freuddwyd yn tiwnio ein serch.

Nid cariadon mohonom yn hollol;  
a haeddi di fwy na cherdd  
ar ddyddiad, neu ffolant i'th gyfarch,  
ond ni wn bwy wyt ti 'nhad.

Crwydraist ti i mewn i'm llewyrch  
yn afon ddiddirnad cariad.  
Lle'r oedd gwyddoniaeth yn gorffen,  
dechreuai gwirionedd ei daith.

Llawn dop o'm dyfodol i oeddet.  
Roedd y parhad wedi dewis dod.  
Beth 'wyddet am ddarfod? Dolen  
mewn amser oedd ymchwil dy ach.

Ond ni wn bwy fyddet ti 'nhad;  
ond gwn ble: y lle na fesura  
ddydd, eithr a'n mesura ni,  
y lle mawr a'th eglura dydi.

Ar fy lôn saif trwch o ddyddiad  
ac yna fynd, (twylla fi drachefn).  
Dy berson a gura'r awr gofio  
am ddeuddeng mis arall. Cloch

o chwerthin, o gerydd rhydd glân,  
y gloch o daro'n dirion  
ar gornel lôn acw'n sefyll  
bob gwanwyn (cerdyn pen-blwydd

heb argae'n rhwystro'r dyfal)  
afonydd dyddiau lle y bo rhyd,  
yr un lle megis oed dau gariad  
yn ffydd-rwym tra bo byd.



## GWASGARAI'I WENDID CYN YR UN MAWR

Gwasgarai'i wendid. Cerddodd  
y Nid-oedd-yn-bosibl ar lwch  
Galilea. Beth oedd ei fysedd?  
Beth 'wyddai'i lygaid? Ofer ydoedd  
afradu'i gariad arnaf i a'm hefrau  
a gorwario'i daith dair blynedd  
gan nad hynyna a'i dygasai ef yma.

Ymddiheurai i'r Tad am iddo  
oleuo'r arwyddion hyn. Ai dyna  
oedd ei waith i fod? Ond (ffaith)  
baglai dros ei drugaredd bob tro,  
ymyrrwyd â'i daith tua'r diben,  
tynnwyd yr arwyddion ohono,  
a gwaedwyd y tynerwch o'i gnawd.

Ninnau, cawn fwynhau'r lamp ohono.  
Mae hwnnw'n golchi traed.  
Tywallta'r goleuni glân dros y ffordd  
at gleifion a'i denai ar wŷyr,  
a'r ymadrodd cysur 'gyda ni'.  
O! Mae hwnnw'n bleser gwyn  
ar lygad glas. A flaswyd haul fel hyn?

Am yr ymlusgwr, fe'i gohiriwyd  
i fod yn olau. Gwariai'i gariad  
yn lle mynd ymlaen â'i rybudd,  
a'r dŵr yn goch. Ond y Brawd byrddydd,  
hyd at y pren a'i tynnai i rod-di  
pob eiliad o'i oleuni'n addewidion,  
mewn bodolaeth a delid mor llwyr.

## DAMWAIN DAIL LASAGNE

### I

O'r cwpwrdd cwmpodd bocsaidd o ddail Lasagne  
ar ben wyau oherwydd fy mlerwch. Torrodd tri.  
Est toc ati i droi trychineb yn bwdin bara  
menyn. Erioed nid adnabûm mohonot yn trafod  
helbul heb waith nas troist ti'n flasus. (Onid ti  
a gymerodd fy oes? Glawiais arnat fil neu fwy  
o genedlaethau.) Difethwyd dy wyau: taenaist  
amheuthun hyd at dy anhoginiadwy un.

Ac ynnddi dest i'm gorchfygu. Coginio braf.  
I ni sy'n deulu, cymeraist ti bob un cysgod  
a'i blethu'n gynnes. Cesglaist bob pen, pob poen,  
a'u mabwysiadu'n eiddo i ti. Rhoist ti  
d'adenydd amdanom. Dan dy blu y buom  
yn drydar-glwecian, a thithau'n gori dy fodlonrwydd.

### II

Hon ydyw'r un pan fo ein to'n ddiffygion  
a'r llechi'n gonffeti'n gylch o gylch ein trwyn,  
pan fo afalansiau o wendid yno'n hyrddio'n  
anghyfrifol ein poblogaeth o lech i lwyn,  
hon sy'n eu dal nhw rhwng hydeimledd bysedd;  
yr un 'fydd yn fysedd amdanaf o'r brig i'r bôn,  
hon, yr Atlas, sy'n cynnal holl anrhydedd  
ein trychinebusrwydd tila (paid â sôn).

Hon a edmygaf, yr un sydd yn y gornel,  
a ddiffannodd yn nhwll y llygoden. Ac ni wêl  
hi ond eraill. Hon yw. Hyn fydd. Yn ei thwnnel  
mae'n casglu cymwynasau isel yn syn eu sêl.  
Mae popeth yn y gegin lond serch ein mania:  
malwen wyf iddi'n cripiant ar ddail Lasagne.

## GWRAIG WRTH GOFADAIL Y MILWR NAS ADWAENIR

Dyweddodd un a adwaen, 'Weithiau dw innau ddim yn nabod hyn o wraig; mae'r un a wêl eraill yno-i yn bell oddi wrtho-i. Alla-i byth fod yn gyfarwydd â hon. A wyt tithau ambell waith yn sefyll i dynnu-feddwl oddi amdanat dy hun a dymuno adnabod dy rywun

a'i wella?' Mae ganddi ffordd o beidio â bod yn un mewn golwg. Ac fel yna bydd hi'n anodd braidd ei hadnabod. Dywed y doeth nad oes cymwynas a welir, nad yw'n dawnsio yn ei chalon onid heb sylwi, fel pererin ar goll ar ganol y Sahara.

Gwn yn iawn pwy yw'r hi nas edwyn. Hi yw'r un a rodiodd yn garedigrwydd o fore ar hyd fy stryd, yn haul o dangnefedd, yn ffrwydrad o haelioni... a finnau'n baun di-blu mor falch o lunio 'more tan obeithio bod pawb arall yn fy ngweld gyda hi.

Gerbron yr un hon a'i bychanodd ei hun, ymleddais i beidio ag adnabod yr hyn a arhosodd ohonof. Mae'r byd ychydig yn wag o'r fi yn lliaws nas adwaenir. Mae'r fi ymhlith fy modolaeth yn cynrychioli'r arch ym Mrwydyr serch, a thithau ar faes y gad yn lludw.

Hoffwn pe peidiwn i â'm hadnabod (fel ei diadnabod hi). Gwn ysywaeth y peth hwn yno-i sy'n methu â bod yn ddiarth. Hwn yn rhy aml sy'n dod gydag ef i'w wely. Gwn bob blewyn byw ar ei ben a'r rhai nad ynt yno. Boed i hyn o fi fod yn hi, a'i dileodd ei hun.

## PORTREAD O'R BWA BACH

Bob amser cyn y terfynol farw mae yna oeri,  
rhyw fath o farw cyn marw; ac felly mewn godineb  
(a hynny'n ben) sefydla'r ddau eu disgwyl priod.

Rhwng mab a merch, dau farw a geir mewn serch:  
colli cyd-adnabod yn gyntaf; wedyn ysgaru  
yw'r claddu clyd nas gwahenir rhag arfer bedd.

Hedyn o rewi gwyn fydd mwyach yn nod i'r twf.  
Methiant i ymrwymo yw. Gwahanglwyf tân  
yw'n arwain ar lwybr i ffwrdd. Yna, oerfel, popeth.

Trugaredd yw dienyddio priodas rewlllyd flaenaf  
sy'n baratoad i drefn bendramwnwg: torri clo mân  
serch. Troir diffyg angerdd i'w flaenaru'n eisoes-o-beth.

A math o arloesi go dyner yw 'godineb', ... a dyfarniad.  
Caed paratoad cyntaf ynghynt: cysgod fu colli ei sws.  
Ac wedyn y dôl'r dwli-mewn-cyfraith, yn garn gwahân.

\* \* \*

Ni wnâi Bwa Bach ond sgubo'r cusanau dan garped.  
Aeth pob awr ganddynt, â'i llwydni, yn ail law.  
Caed ynddynt, gelanedd o gariad, rieni nas byddent.

Yn wacter llythrennol o ragair a lanwyd â pheidio,  
a roliai yn eu clustiau. Dringasai'r bwystfil o'u tu maes.  
'Gwastraff ar farw fydd darfod,' meddai'r Bwa.

\* \* \*

Felly cyn troi'n farw olaf, bydd yna baratoi: chwarae bowls  
pensiynol, hel angof, a gorwedd ar lawr ar dy hyd  
gan laddwyr poen. Dyma'r norm o baratoi cyn dryllio'u byd

heb dorchi llawes. Mae'r holl datws, yn y garej, ymlaen llaw'n heneiddio fel penliniau o wythnos i wythnos. Ond dwedais hynny eisoes...' Cyn-farw ailadroddol bob awr a chwyth blwc.

'Caf rywbryd,' medd Bwa, 'yr oferaf hen o farw, y trydydd, yr un a wyddom oll, yn daclus gyfredol ein tro.

Hwn yma fydd dynwared marw, – oherwydd cyn hwn 'cw

ceid colli serch, colli merch, a'u colli awydd anadlu.

Bu'r nodd i fyw'n sychu. Ac i ni yr ail-feirwon maith, y pen nad yw'n glir, a'r galon sydd erioed ar goll.'

Mae pob hen bâr, sy'n confensiynol farw, yn wahaniad stond eisoes i bawb-weddill ohonom. Y maent yn naturiol gartrefol gyda chofgolofnau. Cerddi ynt: o'r braidd y gellir eu cofio.

## YR ATGOF HEDEGOG

Cofiaf hen fwg go debyg  
i eilun tylluan ar silff  
gerllaw lliw gwyll a'i hesgyll  
yn dianc yn ôl i febyd

alaethau i ffwrdd ar goll;  
a ffrindiau yno beunos  
yn sipian storïau, a'u pibau'n  
pwffian neges am a gawsom.

Fi'r hen 'fu'n bwrw dail  
mewn mwgaid o de i droi  
atgofion yn yr hylif pan  
ddaeth fy nhrobwll i ferw.

Rhyw atgof hysbys oedd  
a benderfynodd hwylio  
ar drywydd crwt, a hiraethu  
yn rhwth cyn y dychwelyd.

Ymgrymai cwsg uwchben  
y tân, a'm pib yn hud  
am ienctid yn lân heb wybod  
pa mor bell yr oedd am fynd.

Angof a ferwai'n atgof,  
aderyn brown drwy wynt  
wedi cyrchu i ddrachtio crwtyn  
mewn llestri sychedig gynt.

Digon yw gormod. Edrychwn  
i'r tsieina, a dilyn i'r pwll  
y plymio gan esgyll gwynion,  
a'i sgrech wrth ddowcio mewn twll.

A sydyn hedai'r mwg yn ôl yno  
i flasau aeddfedrwydd ei silff.  
Caf ei dwstio'n gof gyda'r lleill...  
cyn i benelin rhyw ffwl ei wthio.

## DYSGWR GWÂR O GEREDIGION

*(cysur mewn cyfnod diog o brotestio gan y Cymry Cymraeg)*

Os gall y cymylau i gyd ei mentro hi  
i fod yn wyn, yn siŵr, fe'i gelli di.  
Gwyn hefyd yw gorffwys ar dy gefn  
ar gefn prynhawn. Mi wn dy wyn  
yn ceisio sbectrwm: eira'n ceisio gwlad  
yn amryliw. Erioed ni chlywaist  
glychau glas fel hyn. Dewisaist wyn.

Dewisaist ddelfryd. Yn ôl opteg, mae  
all-liw'r clawdd yn adeiladu gwyn.  
Disgwyli eiliad ffrwydrad cymysgliw  
yn undod brawd. Ar ben y bryn,  
un eiliad bach o wers, ac un ynghyd  
yn sbecian arnat, nid yn fygythiol;  
ond yn gwyrdd-gasglu, ar dy dafod, wyn.

O fod yn ddysgwr, gwâr yw'r cloddiau'n  
ddyfal o ganu gwyrdd amryfal. Os gall  
y cymylau drwyddynt ei mentro hi  
i fod yn wyn, yn siŵr, fe'i gelli. Ar fryn  
gwrandewi ar hyn dan ddrysau Cymru  
ond gyda fi megis criw o liwiau syn  
wedi casglu'u byddin i fod yn dafod gwyn.

Essex a Wessex a Chaint, chwyth  
eu heira gwlan i'n cynhesu'n glawdd,  
(heb ein duo i'n corneli) yn wyn  
o'r galon. Mewn adennill maent yn byw  
ar glustiau uchel wal awelon cynn  
heb eu gwyngalchu chwaith na chwyno  
lluwchfeydd Cymreig gloyw i'n hencilion.



## HEN SIDAN

### I

Fy sidan gwyn, wedi'i wau gan lindys,  
nid bob dydd, y mae'r bydysawd  
yn gallu disgyn mewn niwl o liain  
dychymyg ar draws ein pelydrau lygaid

fel eu bod yn gallu baglu gerdded  
drwy galonnau ar eu pennau'u hunrwydd,  
yn fydoedd o haf a lluchio'u  
clytiau o syndod at farwolaeth bod.

Pwy a'u dihunai i'r holl nyddiant hyn,  
'y ngeneth gu, oddi tan gyfrinach lindys?  
Pwy a feiddiai ddweud wrth y  
gyfrinach am doi? Trawsffurfiwyd

y greadigaeth anhysbys hon i addurno'r fath  
oferedd. Ofer fy swm, fel y gyfundrefn  
drydanol gymhleth dwym dan lorïau,  
yn methu â thynnu'i gwallt o'm gwallt i.

O! ddoethinebau nwyd a nobl, fy merch,  
sut y gallent fforddio anadlu cymaint  
o sibrydiadau chwyth? Maent yn teimlo  
eu bod wedi'u trechu gan sidan, cynffon

o sidan sydyn neu araf wrth ffrog ganrifoedd  
yn cael ei llusgo ar draws salmau Solomon,  
yn ôl ac ymlaen, yn ôl drwy siamberi marmor  
calon, yn ddoethach nag ef ymhlith y merched.

## II

Ni ddewisais chi er mwyn cael rhagor o wres,  
fy sidan, er eich bod chi'n wynias gynnes.

Ysgwyd 'wnewch chi, fy sidan, yn erbyn yr awyr pan  
symuda eich pen ar draws y cydnawsedd tyner.

'Yfwch i'ch gŵn,' y gair sy'n eich diffinio yn Llangawsai.  
'Mae'n syndod o faith', meddwch, fel disgrifio dydd o Fai,

chi'r sidan sy'n medru darganfod rhinweddau nas gwelaf i,  
rhai newydd nas dyfeisiwyd eto gan gorachod asbri.

'Cuddiwch fi, fy sidan, tan lanio ar fy waliau coch,  
mae'r sidan yn dryloyw ddringol lle bynnag y byddoch.

Fi'r llall, yw'r blaenaf, yr annheilyngaf llall i chi, tynnaf  
ddefnydd, nas deallaf ond a sigla'n wawn drwy lygaid.'

## DYSG Y FFIGYSBREN A'R DIFERLIF AM OLEUADAU

Mi es, a'r hyn a ddylswn i oedd aros.  
Mi ddes, a'r hyn a ddylswn oedd peidio â mynd.  
Yn awr, drwy genedlaethau o goch a gwyrdd  
mae myrdd o dameidiau Midas o dywyllwch  
yn drysu'r pren. Roedd angen dweud mor ffraeth  
o gelwydd gwyn oedd ffigys, ffrwyth sy'n sgwd.  
Beth ydyw gwyrdd i mi? Ond arwydd *Stop*.

Anfona un wyrth, ac erot try yn enfys.  
Datgana'i lliw, ond gyda briw a llawen  
ynfyd fel y daw yn ffatri ar gyfer  
deor. Gwranda a chlyw'i ust llawn lliwiau'n  
dallu stŵr. Ond pallais innau fel  
pe na hoffet ddysgu gan uchderau nen  
yr hyn a ddwedai wrthyf am gladdu 'mhen.

Ac yna, *Ewch*, geilw coch diferlif *Stop*.  
Dewisais felly ddigryfder Arglwydd rhudd.  
Ac yn nhosturi'i egni fe ddôi gwraig  
tua phren arall i mewn i lif ei Deyrnas  
gyfan ddeuliw ei dras a fyn i'w gwaed  
a'i Waed Ef gyd-gochi wybren haf yn un  
heb glywed mynd a dod. Ceir bod drwy beidio.

Bopeth yn giwed liw o beidio, cerddaist  
drwy'r dorf. Fe chwiliai hi am beidio gwyn  
a oedd yn wyrth. A rhwng y coch a'r gwyrdd  
symudaist hyd y ffyrdd â'th gariad tawel  
yn drech na'r salwch a welwai'n lliw ni i gyd.  
Heuaist dy wyrthiau, a'r fwyaf ohonynt oll  
oedd tangnefedd peidio ar hen geubren Eden.

## Y LLECYN CHWARAE

Gerllaw fe gawd un Eden yn y llecyn chwarae  
nad ych chi byth i fynd iddi. Anwel yw,  
yn frwnt, yn wlyb. Ac mor anodd yw a chul  
i ddod iddi, fel nad oes neb yn credu  
y gellid ei chael, ond Twm. Fe'i cyrhaeddodd  
drwy orwedd ar ei gefn, a gwasgu'i ben  
i mewn i'r baw, cau'i lygaid, a gwthio dan orchudd  
cadw-mi-gei o falwod, a nawf o fwydon.

Amlwg yw pob man arall, rhyddieithol, a'i olwg  
heb berygl, ond yr un Eden hon. Ac yno  
tan waedu ychydig, dôi'r byd o hyd i grwt.  
Ai oblegid ei bod yn waharddedig rywsut  
y daeth ef yno? Ynteu, a oedd yna ysfa  
dragwyddol am y newydd, am gael datguddio  
yr hyn a wnaed yn ddirgel? Roedd hi'n wyrthiol

fod bychan mor fawr yn gallu bod yn llai  
nes iddo droi'r caeedig yn faith o agorfa.  
Ac yn ei fol fe roliai'r gerdd lân a'i gorddi  
a'i yrru'n grwt bach nes ei fod yn ddigon caeth  
i hoffi'r caethiwed; y drwg a'r da yn wyrth  
yn nwylo bywyd, yn arwydd (pe myfyriech  
ddigon) y caech yr ateb i gyd; o ddewis yn iawn.

Gawn feddylio am y brigyn crwt a wyliwn i  
yn cael hwyl ar ei lethr lithrig, diawl bach.  
Ni holodd ef erioed yn ei dipyn llipryn oes  
am y llwgr a'i llamodd. 'Drygionus?'  
Wrth gwrs, pam lai? 'Ond y drwg?' Erioed.  
Onid yw'r smotyn llwch mor fân i lygaid  
fel nad yw'n cyfrif y tu yma i ymgynraedd?

Ond yna, adref amdani, o bwll brwnt i bwll brwnt  
at Mam. Taro'r byd yn dasgion budr o forthwylio  
â thraed hyd figyrnau, dod o hyd i ynnysoedd  
gwasgaredig o foroedd tila fel trwyn greddfol  
ar yr hewl. Tynnwch sgidiau'n baradwys dydd  
ynddynt, adref â'r gwaed drwy'i wythiennau twt,  
nes ymgartrefu yn eu dilyw galon, dôï'r tyndra

o hwyl draddodiadol wreiddiol o byllau dŵr  
Eden a fwriadwyd mor gyn-wreiddiol iddo'n lendid.  
Eden a addawodd iddo'n blentyn mân.  
Du oedd ei wynfyd. Cyfrinach crwtyn yw  
adeiladu cestyll llaid, bod yn grwt a chodi'r iet  
a marchogaeth i mewn i'r hud yn ddrud ar farch  
nas dofwyd gan yr un cyflogydd eto.

## BRAWDDEGAU AIL IAITH

Bro deg yw ein Brawddegau:

'gofynnant pam y gwneir eu cam cudd –  
wyneb dros feddwl Mona.'

'Yn y bol mae'r iaith yn byw:  
purfa i'r pam yw perfedd.'

'Llawn y byd yw, lle na bu dim.'

'Eli yw adennill eiliaith.'

'Dod yn ôl sy'n dad i ni.'

'Cei adio un mewn cadwyn.'

'Agorodd caethiwed Geiriau  
a gyrru'r pethau bach gwirion  
i mewn i'r clymiadau mawr.'

'Bro a ddwg y Brawddegau

i gyfarch iaith yn gyfaill

cyfan, yn gartref ar ein cyfer.'

'Hi a ddwg gyfrinach peidio ag achwyn.'

O'n gwadd ni, bro gwadd yw yn naear

Brawddegau, a bro ddigon.